TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 1 Opsiwn 1.1

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2.1 - Mai 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ..... 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ..... 1
Strwythur y Cymhwyster ..... 2
Asesiad ..... 3
Crynodeb o'r Asesu Uned 1 ..... 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 1 ..... 3
Trosolwg o Uned 1 Yr Oesoedd Canol: Opsiwn 1.1 ..... 4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.1 Yr Oesoedd Canol: Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197 ..... 5
Profiadau Dysgu ..... 29
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 31
Geirfa ar gyfer Opsiwn 1.1 Yr Oesoedd Canol: Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197 ..... 38

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd y dyddiad dyfarnu am y tro cyntaf i Haf 2028 | 1 |
| 2.1 | Mae mwy o adnoddau cyfrwng-Cymraeg wedi'u hychwanegu | Drwyddi draw |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Asesiad

## Crynodeb o'r Asesu Uned 1

**Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**
**30% o'r cymhwyster**

**60 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

**Yr Oesoedd Canol**
**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197
**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354–tua 1416
**Modern Cynnar**
**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547
**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, tua 1603–tua 1660
**Modern**
**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892
**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 1

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Trosolwg o Uned 1 Yr Oesoedd Canol: Opsiwn 1.1

**Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
(30% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 1 yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn amser. Nod Opsiwn 1.1 yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o effaith rheolaeth Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth yn y cyfnod o tua 1132 i tua 1197.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Yr Oesoedd Canol | 1.1 | Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197 |
| | 1.1.1 | Cefndir teuluol Rhys ap Gruffudd |
| | 1.1.2 | Pwysigrwydd rhyfela wrth ffurfio De Cymru rhwng 1146 a 1170 |
| | 1.1.3 | Sefydlu heddwch gyda Harri II, tua 1170–1189 |
| | 1.1.4 | Y rhesymau dros achosion pellach o ryfela ac effaith y rhyfela hwnnw rhwng 1189 ac 1196 |
| | 1.1.5 | Marwolaeth a gwaddol Rhys ap Gruffudd |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.1 Yr Oesoedd Canol: Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| **1.1 Cefndir: Cymru ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif**<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • arwyddocâd concwest a rheolaeth y Normaniaid, maint llwyddiant y Normaniaid wrth orchfygu Cymru a chreu'r Mers. | Sut yr oedd Cymru'n cael ei rheoli cyn y Normaniaid, gan gynnwys y teyrnasoedd hynafol a chyfreithiau Hywel Dda.<br><br>Arwyddocâd concwest y Normaniaid a'i effaith ar Gymru erbyn 1100.<br><br>Pŵer Arglwyddi'r Mers. | **Gweithgaredd:**<br>Cofnodwch amlinelliad o gyrchoedd y Normaniaid i Gymru ar ôl 1066 ar fap amlinellol o hen deyrnasoedd Cymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut cafodd Cymru ei rheoli ar ddechrau'r cyfnod hwn a gallant wneud sylwadau ar effaith Concwest y Normaniaid ar Gymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:** | **Gwefan(nau):**<br>Hywel Dda \| Mwy o Stori'r Iaith<br><br>BBC - Cymru - Hanes - Ysgolion - Cymru a'r Normaniaid<br><br>BBC Cymru - Hanes - Themau - Y Normaniaid<br><br>BBC - Cymru - Hanes - Creucenedl - Dyfodiad y Normaniaid | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Anodwch y map â manylion y gwrthdaro rhwng y Cymry a'r Normaniaid.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint effaith Concwest y Normaniaid ar Gymru. | BBC - Cymru - Hanes - Creucenedl - Dyfodiad y Normaniaid rhan 2<br><br>Kingdom of Wales - Sarah Woodbury<br><br>**Fideo(s):**<br>History Minute: The Welsh Common Law<br><br>Gruffydd ap Llywelyn - Sarah Woodbury<br><br>Norman invasion of Wales<br><br>Wales in the Norman Era - Sarah Woodbury<br><br>How the Normans invaded Wales<br><br>**Map(iau):**<br>Cymru yn yr Oesoedd Canol Cynnar<br><br>Map o Goncwest Gruffydd ap Llywelyn<br><br>**Llyfrau:**<br><br>*Cymru a Phrydain yn y Byd Canoloesol tua* | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *1000- tua 1500* gan Hefin Mathias, Penodau 2 a 3<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 1<br><br>*Curriculum for Wales: History for 11-14 years* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Penodau 1.2 a 9.1 | |
| • nodweddion pwysig bywyd yng Nghymru yn ystod y ddeuddegfed ganrif, o grefydd i natur ei heconomi, ei chymdeithas a'i diwylliant. | Sut oedd bywyd yng Nghymru cyn Concwest y Normaniaid.<br><br>Sut dechreuodd bywyd yn y Mers fod yn wahanol i fywyd yng ngweddill Cymru.<br><br>Sut roedd Cristnogaeth yng Nghymru wedi datblygu ar wahân i Eglwys Loegr.<br><br>Pam roedd anghydfod rhwng rheolwyr Cymru ac Archesgob Caergaint ynghylch sut roedd yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei rhedeg. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniadwch ddiagram corryn i gofnodi gwybodaeth am agweddau gwahanol ar fywyd yng Nghymru ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut beth oedd bywyd yng Nghymru ar ddechrau'r cyfnod hwn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ychwanegwch fanylion at y diagram corryn i ddangos sut gallai agweddau ar fywyd wedi bod yn wahanol rhwng yr ardaloedd dan reolaeth y Cymry a'r rhai dan reolaeth y Normaniaid. | **Gwefan(nau):**<br>BBC - Cymru - Hanes - Creucenedl - Dyfodiad y Normaniaid<br><br>The Welsh Marches - A History<br><br>The Welsh Marcher Lordships<br><br>The Welsh Marches - Lise Hull<br><br>**Fideo(s):**<br>Regions of Britain - The Welsh Marches<br><br>Norman Conquest of Wales - History File | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint y gwahaniaeth rhwng bywyd yng Nghymru a bywyd yn Lloegr yn y cyfnod hwn. | **Podlediad(au):**<br>The Welsh Marches - Historical Association<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 1<br><br>*Cymru a Phrydain yn y Byd Canoloesol tua 1000- tua 1500* gan Hefin Mathias, Pennod 1<br><br>*Curriculum for Wales : History for 11-14 years* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Penodau 1.1 a 2.1 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.1.1 Cefndir teuluol Rhys ap Gruffudd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • llinach Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>  • hawl ei dad, Gruffydd ap Rhys, i deyrnas Deheubarth<br>  • arwyddocâd ei fam, Gwenllian ferch Gruffydd ap Cynan, tywysoges Gwynedd. | Natur hawl Llinach Frenhinol Dinefwr i orsedd Deheubarth.<br><br>Sut aeth Gruffudd ap Rhys ati i ail-hawlio teitl brenhinol Deheubarth ar ôl i'w dad ei golli.<br><br>Arwyddocâd Gwenllian ferch Gruffydd ap Cynan a'i chysylltiad â brenhinoedd Gwynedd.<br><br>Sut roedd Gruffydd ap Rhys a Gwenllian ferch Gruffydd ap Cynan yn rhan o wrthryfel y Cymry yn erbyn rheolaeth y Normaniaid. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniadwch goeden deulu ar gyfer teulu Gruffudd ap Rhys, o'i rieni i'w blant.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd rhieni Rhys ap Gruffudd i'r safle a sicrhaodd i'w hun pan ddaeth yn rheolwr Deheubarth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Anodwch y goeden deulu â manylion yr hyn a wnaeth Rhys ap Gruffudd a Gwenllian ferch Gruffudd ap Cynan i atgyfnerthu Deheubarth.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint y dylanwadodd rhieni Rhys ap Gruffudd arno fel rheolwr Deheubarth. | **Fideo(s):**<br>Gwenllian- Menter Gorllewin Sir Gar<br><br>Gwenllian ferch Gruffydd - Sarah Woodbury<br><br>Boudicca of Wales: Gwenllian ferch Gruffydd<br><br>Kidwelly Castle - Sarah Woodbury<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 2<br><br>*Curriculum for Wales: History for 11-14 years* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Pennod 1.2<br><br>**Gwefan(nau)**<br>Trosolwg o Rhys ap Gruffudd<br><br>BBC - Cymru - Hanes - Ysgolion - Oes y Tywysogion | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gwenllian- Cadw<br><br>Castell Cydweli<br><br>Gruffydd ap Rhys<br><br>Gwenllian | |
| • natur a phwysigrwydd perthynas Rhys â'i frodyr, gan gynnwys:<br>  • yr ymgyrchoedd a marwolaeth ei hanner frawd Anarawd yn 1143<br>  • pwysigrwydd ei frodyr Maredudd a Cadell a oedd wedi goroesi. | Y traddodiad Cymreig hynafol o rannu teyrnas rhwng yr holl etifeddion gwrywaidd.<br><br>Y ffordd anarferol y cymerodd meibion Gruffudd ap Rhys eu tro i reoli Deheubarth yn lle ei rannu rhyngddynt.<br><br>Pwysigrwydd yr enillion a wnaed gan bob brawd yn olynol wrth iddynt barhau i frwydro yn erbyn y Normaniaid a'u gwrthwynebwyr o Wynedd. | **Gweithgaredd:**<br>Ysgrifennwch fywgraffiad byr o bob un o frodyr Rhys ap Gruffudd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y berthynas rhwng Rhys ap Gruffudd a'i frodyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch berthynas Rhys ap Gruffudd a'i frodyr ag Owain a Cadwaladr (meibion Gruffudd ap Cynan, brenin Gwynedd). Ysgrifennwch y nodweddion tebyg a gwahanol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd y berthynas heddychlon rhwng Rhys ap Gruffudd a'i frodyr. | **Gwefan(nau):**<br>Anarawd<br><br>Cadell ap Gruffudd<br><br>Maredudd ap Gruffudd ap Rhys<br><br>Owain Gwynedd<br><br>Cadwaladr ap Gruffydd<br><br>Cadwaladr ap Gruffydd, brother to the King<br><br>**Fideo(s):**<br>The Lord Rhys: Sarah Woodbury (Start at 1:43)<br><br>Maredudd ap Gruffydd: Fun Facts<br><br>Owain Gwynedd: Sarah Woodbury | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Llansteffan Castle - Sarah Woodbury<br><br>Wiston Castle - Sarah Woodbury<br><br>**Llyfr(au):**<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 2 | |
| • rheolaeth Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>  • sut a pham y daeth yn rheolwr ar Ddeheubarth yn 1155<br>  • pwysigrwydd ei briodas â Gwenllian ferch Madog ap Maredudd, merch Tywysog Powys. | Sut arweiniodd marwolaeth dau o'i frodyr a chlwyfo difrifol brawd arall at roi Rhys ap Gruffudd ar orsedd Deheubarth.<br><br>Sut gwnaeth cydweithio â'i frodyr helpu Rhys ap Gruffudd i gadarnhau ei safle fel rheolwr pan gymerodd reolaeth o Ddeheubarth yn 1155.<br><br>Pwysigrwydd priodi i mewn i un arall o deuluoedd brenhinol Cymru. | **Gweithgaredd:**<br>Gweithiwch mewn grwpiau i grynhoi'r wybodaeth am deulu brenhinol Deheubarth i gyflwyno esboniad i'r dosbarth o sut gwnaeth Rhys ap Gruffudd sefydlu ei hun fel rheolwr Deheubarth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut gwnaeth Rhys ap Gruffudd sefydlu ei hun fel unig reolwr Deheubarth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trefnwch ddadl rhwng dysgwyr sy'n amddiffyn y syniad ei bod yn anodd i Rhys ap Gruffudd ddod yn rheolwr Deheubarth, a dysgwyr eraill yn dadlau ei bod yn syml ac yn rhwydd. | **Gwefan(nau):**<br>Rhys ap Gruffudd<br><br>Rhys ap Gruffudd - Welsh Warriors<br><br>Rheolwyr Cymru: Oes y tywysogion<br><br>Rhys ap Gruffudd (1131/2-1197) - Llandeilo History<br><br>Rhys ap Gruffudd<br><br>**Fideo(s):**<br>Tywysogion Cymru Chwaraewch o 4:26 i 7:51)<br><br>**Llyfrau:** | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr asesu pa mor rhwydd y daeth Rhys ap Gruffudd yn rheolwr Deheubarth. | *Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 2 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.1.2 Pwysigrwydd rhyfela wrth ffurfio De Cymru rhwng 1146 ac 1170** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • natur a maint Teyrnas Deheubarth, ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif, gan gynnwys:<br>  • colli Deheubarth i'r Normaniaid yn 1093 yn dilyn marwolaeth Rhys ap Tewdwr<br>  • yr ymgais i adennill tiriogaethau Deheubarth yn 1116 ac 1136. | Ailystyriwch deyrnasoedd hynafol Cymru, gan ddangos sut cawson nhw eu huno am gyfnod byr gan Gruffydd ap Llywelyn, brenin Gwynedd.<br><br>Pwysigrwydd sut daeth Rhys ap Tewdwr i gael ei adnabod fel rheolwr Deheubarth ar ôl anghydfod teuluol tan ei farwolaeth yn 1093.<br><br>Sut gwnaeth Gruffudd ap Rhys ddychwelyd o alltudiaeth yn Iwerddon i ddatgan ei hawl i Ddeheubarth a chymryd rhan yng ngwrthryfeloedd y Cymry yn erbyn rheolaeth y Normaniaid. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o 1155 i 1136 i ddangos sut cafodd teyrnas Deheubarth ei rheoli gan bobl wahanol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut bu'n rhaid i deyrnas Deheubarth gael ei hadfer ar ôl iddi gael ei chipio gan y Normaniaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i ddigwyddiadau Yr Anarchiaeth a defnyddiwch nhw i esbonio'r rhesymau y tu ôl i wrthryfel y Cymry yn erbyn rheolaeth y Normaniaid.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd y Rhyfel Cartref yn Lloegr a'i effaith ar y gydberthynas â thywysogion Cymru. | **Gwefan(nau):**<br>The Early Welsh Kingdoms: Deheubarth<br><br>The Kingdom of Deheubarth - Sarah Woodbury<br><br>King Stephen and The Anarchy - Historic UK<br><br>The Revolt of 1136 - Sarah Woodbury<br><br>The Battle of Crug Mawr - Historic UK<br><br>How the Longbow Won the Battle of Crug Mawr - Historynet<br><br>**Fideo(s):**<br>The rise of the Plantagenets - BBC Teach<br><br>Ten Minute English and British History | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sut cyfrannodd rhyfel cartref Yr Anarchiaeth at lwyddiant gwrthryfeloedd y Cymry, yn enwedig i Ddeheubarth. | | Norman Invasion of Wales<br><br>The Battle of Crug Mawr 1136 AD<br><br>**Map(iau):**<br>Brwydr Crug Mawr<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 2 | |
| • arwyddocâd y rhyfeloedd yn erbyn Gwynedd, gan gynnwys:<br>  • cipio Castell Caerfyrddin yn 1145 a'r castell yn Ninbych-y-pysgod yn 1153<br>  • ail-gipio Ceredigion o afael Gwynedd yn 1153. | Pwysigrwydd y cysylltiadau teuluol rhwng rheolwyr Deheubarth a Gwynedd.<br><br>Hawliau croes Deheubarth a Gwynedd i diriogaethau yng ngorllewin Cymru, fel Ceredigion.<br><br>Llwyddiannau rheolwyr olynol Deheubarth yn erbyn Owain Gwynedd a'i frawd Cadwaladr ap Gruffydd. | **Gweithgaredd:**<br>Ymchwiliwch i'r elyniaeth rhwng Deheubarth a Gwynedd ac ysgrifennwch baragraff i'w esbonio.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall bod gelyniaeth rhwng Gwynedd a Deheubarth dros diroedd yng ngorllewin Cymru.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Plotiwch y cestyll a'r diriogaeth a enillwyd ar fap.<br><br>Trafodwch i ba raddau yr oedd tiriogaeth y deyrnas wedi ehangu. | **Gwefan(nau):**<br>Owain Gwynedd & Rhys ap Gruffudd - Britain Express<br><br>Tenby Castle<br><br>**Fideo(s):**<br>Castell Caerfyrddin<br><br>**Map(iau):**<br>Deheubarth<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint llwyddiant Deheubarth yn ei gelyniaeth â Gwynedd. | *The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 2 | |
| • y gwrthryfel yn erbyn rheolaeth Lloegr, gan gynnwys:<br>  • yr ymgyrchoedd yn erbyn Lloegr, 1158–1170<br>  • canlyniad y gwrthryfel. | Arwyddocâd Harri II yn dod yn Frenin Lloegr a'i ymosodiadau ar Gymru i adennill tiriogaeth Normanaidd a gollwyd i dywysogion Cymru.<br><br>Canlyniadau ymostyngiad Arglwydd Rhys a thywysogion eraill Cymru yng Nghyngor Woodstock yn 1163.<br><br>Buddugoliaeth i'r Cymry ym Mrwydr Crogen yn 1165 fel trobwynt yn y gwrthryfel yn erbyn Harri II.<br><br>Marwolaeth Owain Gwynedd gan adael Rhys ap Gruffudd fel y rheolwr mwyaf pwerus yng Nghymru. | **Gweithgareddau:**<br>Lluniwch linell amser o brif ddigwyddiadau'r gwrthryfel, gan anodi i ddangos llwyddiannau a methiannau.<br><br>Ysgrifennwch ddisgrifiad manwl o Frwydr Crogen.<br><br>Ysgrifennwch baragraff i esbonio pam mai Arglwydd Rhys oedd y rheolwr mwyaf pwerus yng Nghymru erbyn diwedd y gwrthryfel.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth ddigwyddodd yng ngwrthryfeloedd y Cymry yn erbyn Harri II.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Trafodwch pa mor arwyddocaol oedd ymostyngiad i awdurdod Lloegr yn y cyngor brenhinol o gymharu â llwyddiannau fel brwydr Crogen.<br><br>Trafodwch pa mor bwysig oedd y ffactorau a dynnodd sylw Harri er | **Gwefan(nau):**<br>Owain Gwynedd tan Rhys ap Gruffudd<br><br>Ewloe Castle - Castlewales.com<br><br>Constitutions of Clarendon<br><br>Brwydr Crogen<br><br>Battle of Crogen - Sarah Woodbury<br><br>Henry II's Campaign Against the Welsh in 1165 - Paul Latimer<br><br>Arglwydd Rhys ap Gruffudd Llinell Amser<br><br>Arglwydd Rhys ap Gruffudd- Cardiau Llinell Amser<br>The Political and Military Impact of Henry II's Campaign in Wales<br><br>**Fideo(s):** | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mwyn sicrhau llwyddiant i dywysogion Cymru, er enghraifft y ddadl â'r Eglwys a'r problemau â'i ymerodraeth yn Ffrainc.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor llwyddiannus oedd Arglwydd Rhys yn ei ymgyrchoedd yn erbyn Harri II. | 1157 The Battle of Ewloe<br><br>Owain Gwynedd - Sarah Woodbury<br><br>England's Embarrassing Defeat to a Kingdom - Cambrian Chronicles<br><br>The Kingdom of Gwynedd (878 - 1283) - Cambrian Chronicles<br><br>Battle of Crogen - Sarah Woodbury<br><br>Battle of Crogen - Llangollen Museum<br><br>Welsh Resistance in South Wales - Sarah Woodbury<br><br>The Lord Rhys - Failures then victory against Henry II 1150s & 1160s (1.42 to 2.24)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 3 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.1.3 Sefydlu heddwch gyda Harri II, tua 1170 - 1189** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sut a pham cafodd y berthynas â Harri II ei datblygu, gan gynnwys:<br>• rôl Rhys fel Prif Ustus o 1172 ymlaen<br>• pwysigrwydd y Cynghorau Brenhinol yng Nghaerloyw, 1175 a Rhydychen, 1177. | Effaith yr anawsterau a oedd yn wynebu Harri II, gan gynnwys anghydfod â'r Eglwys, problemau yn ei eiddo yn Ffrainc a gwrthryfel gan ei uchelwyr.<br><br>Pwysigrwydd rôl y Prif Ustus fel cynrychiolydd pŵer y brenin pan fydd y brenin i ffwrdd yn cyflawni dyletswyddau eraill.<br><br>Rôl y cynghorau brenhinol yn rheoli teyrnas Harri II ac arwyddocâd gwahodd Arglwydd Rhys i fynychu. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i'r rheswm pam wnaeth Harri II ddewis Arglwydd Rhys i fod yn Brif Ustus yn ei absenoldeb ac ysgrifennwch esboniad o hyn.<br><br>Lluniadwch ddiagram corryn i gynrychioli'r holl ffactorau yr oedd Harri II yn delio â nhw yn yr 1170au a'r 1180au.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall bod Arglwydd Rhys wedi ffurfio cynghrair werthfawr â Brenin Harri II.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Dadleuwch pa mor bwerus oedd Arglwydd Rhys erbyn yr 1170au, gydag un ochr yn dadlau ei fod yn bwerus a'r ochr arall yn dadlau nad oedd yn bwerus.<br><br>Ar ôl gwrando ar y dadleuon yn y ddadl, gall dysgwyr roi cyfiawnhad ysgrifenedig dros eu barn eu hunain ynghylch pa mor bwerus oedd Arglwydd Rhys yn y cyfnod hwn. | **Fideo(s):**<br>S4C Tywysogion: Yr Arglwydd Rhys (Hwb) 12:00 - 18:00<br><br>The Lord Rhys - Sarah Woodbury (Chwaraewch o 2.27-3.04) Improving relations with Henry II<br><br>Henry II summary including Great Revolt<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Penodau 4 a 5<br><br>*Hanes Cymru* gan John Davies, pennod 4 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor bwerus oedd Arglwydd Rhys yn ystod y cyfnod hwn. | | |
| • y rhesymau dros gestyll ac adeiladu cestyll a'u harwyddocâd, gan gynnwys:<br>  • Castell Aberteifi, lleoliad yr Eisteddfod gyntaf, a gynhaliwyd yn 1176<br>  • Castell Dinefwr, cartref hynafiadol y teulu. | Arwyddocâd y broses o adeiladu cestyll yng Nghymru o'r cyfnod cyn y Normaniaid i gestyll mwnt a beili a gorthyrau carreg y Normaniaid.<br><br>Y penderfyniad i gynnal yr Eisteddfod gyntaf yng Nghastell Aberteifi a'i dylanwad ar ddiwylliant Cymru.<br><br>Pwysigrwydd Castell Dinefwr fel sedd hynafol rheolwyr Deheubarth. | **Gweithgareddau:**<br>Gan ddefnyddio ymchwil i gestyll mwnt a beili a gorthyrau carreg, labelwch ddiagramau i ddangos y nodweddion gwahanol.<br><br>Anodwch y diagramau i ddangos sut roedd y broses o gynllunio cestyll yn datblygu yn y cyfnod hwn.<br><br>Ymchwiliwch i un o'r cestyll sy'n gysylltiedig ag Arglwydd Rhys a rhowch gyflwyniad i'r dosbarth arno.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd cestyll i Arglwydd Rhys fel rheolwr Deheubarth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch pam yr oedd angen cestyll ar reolwyr Cymru yn y cyfnod hwn a beth oedd yn eu gwneud yn wahanol i gestyll a adeiladwyd yng Nghymru mewn canrifoedd diweddarach. | **Gwefan(nau):**<br>Native Welsh castles<br><br>**Fideo(s):**<br>S4C Tywysogion: Yr Arglwydd Rhys (Hwb)<br>18:00 – 25:00<br><br>Castles of the Welsh princes - Sarah Woodbury<br><br>Dinefwr Castle - Sarah Woodbury<br><br>Hanes yr Eisteddfod Genedlaethol - o 1176 hyd heddiw! (fersiwn Cymraeg)<br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Penodau 4 a 5 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pam yr oedd angen cestyll ar reolwyr Cymru yn y cyfnod hwn. | *Cymru a Phrydain yn y Byd Canoloesol tua 1000-tua1500* gan Hefin Mathias, Pennod 4<br><br>*Hanes Cymru* gan John Davies, pennod 4<br>*Curriculum for Wales: History for 11-14 years* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Pennod 2.2 | |
| • pwysigrwydd crefydd, gan gynnwys:<br>• noddi abatai gan gynnwys Ystrad Fflur<br>• cefnogaeth i Gerallt Cymro a'r Drydedd Groesgad. | Ystyriwch yr anghydfodau rhwng Eglwys Rhufain a Harri II, ynghyd â'r anghydfodau tymor hirach rhwng tywysogion Cymru ac Archesgob Caergaint ynghylch penodi esgobion.<br><br>Rôl urddau mynachaidd yng Nghymru a phwysigrwydd bod rheolwyr Cymru yn cael eu gweld yn eu cefnogi.<br><br>Taith Archesgob Baldwin a Gerallt Gymro i ennyn cefnogaeth i'r Drydedd Groesgad. | **Gweithgareddau:**<br>Lluniadwch ddiagram corryn i gofnodi prif nodweddion Cristnogaeth yng Nghymru.<br><br>Ar fap o deyrnasoedd Cymru, plotiwch daith Gerallt Gymro a Baldwin o amgylch Cymru yn seiliedig ar eich ymchwil.<br><br>Esboniwch pam mae haneswyr yn meddwl bod crefydd yn bwysig iawn i Arglwydd Rhys.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pa mor bwysig oedd crefydd i Arglwydd Rhys.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Ymchwiliwch i'r rheswm pam yr oedd anghydfodau ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am wneud | **Gwefan(nau):**<br>Strata Florida Abbey - Sarah Woodbury<br><br>Mwy am Abaty Ystrad Fflur \| Cadw<br><br>Homage to a Welsh Prince - The Lord Rhys<br><br>Gerald of Wales - Sarah Woodbury<br><br>Gerallt Gymro<br><br>**Fideo(s):**<br>S4C Tywysogion: Yr Arglwydd Rhys (Hwb)<br>25:00 – 39:45<br><br>Religion in Medieval Britain - Sarah Woodbury | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymateb Arglwydd Rhys am y galw i ymuno â'r Groesgad a beirniadaeth Gerallt Gymro ohono. | penderfyniadau am yr Eglwys yng Nghymru ac esboniwch hyn.<br><br>Ymchwiliwch i'r rheswm pam yr oedd gan Gerallt Gymro farn negyddol am Arglwydd Rhys ac esboniwch hyn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall y materion dadleuol ynghylch crefydd yng Nghymru yn y cyfnod hwn. | Early Christianity in Wales - Sarah Woodbury<br><br>Welsh Christianity<br><br>Cistercians in Wales<br><br>Priories and Abbeys<br><br>Church and Crown - Timelines<br><br>Tintern Abbey<br><br>Gerallt Gymro<br><br>Gerallt Gymro - Rhan Un<br><br>Gerallt Gymro - Rhan Dau<br>**Map(iau):**<br>Deheubarth<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Penodau 4 a 5<br><br>*Cymru a Phrydain yn y Byd Canoloesol tua 1000-tua1500* gan Hefin | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mathias, Penodau 5, 7 ac 8<br><br>*Hanes Cymru* gan John Davies, pennod 4<br><br>*Curriculum for Wales : History for 11-14 years* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Penodau 3.1 a 3.2 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.1.4 Y rhesymau dros achosion pellach o ryfela ac effaith y rhyfela hwnnw rhwng 1189 ac 1196** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • problemau cynyddol rhwng Rhys a'r Brenin Rhisiart I o Loegr<br>  • ymweliad y Tywysog John â Rhys i osgoi gwrthdaro yn 1189<br>  • Rhisiart yn gwrthod cwrdd â Rhys yn Rhydychen ac oblygiadau hynny i'w statws fel rheolwr yng Nghymru. | Esgyniad Rhisiart I ar adeg marwolaeth Harri II a'i effaith negyddol ar y berthynas ag Arglwydd Rhys.<br><br>Rhisiart I yn gwrthod Arglwydd Rhys ac yn penodi prif ustusiaid newydd.<br><br>Rhisiart I yn gwrthod cwrdd ag Arglwydd Rhys ac yn mynnu mai dim ond drwy ei frawd, Tywysog John, y byddai'n delio ag ef, a goblygiadau hyn i statws Arglwydd Rhys yng Nghymru. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i'r problemau bu'n rhaid i Rhisiart I ddelio â nhw a lluniwch restr ohonynt.<br><br>Ymchwiliwch i'r ffyrdd aeth Rhisiart I ati i leihau pŵer a dylanwad Arglwydd Rhys a lluniwch restr ohonynt.<br><br>Dylai dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn ynghylch pa mor bwysig oedd Arglwydd Rhys yn ôl Rhisiart I.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut newidiodd y gydberthynas rhwng yr Arglwydd Rhys a Brenin Lloegr pan ddaeth Rhisiart I yn frenin yn 1189.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch y ffyrdd yr oedd Rhisiart I a Harri II yn trin yr Arglwydd Rhys a thrafodwch pa mor wahanol oedd eu triniaeth ohono. | **Fideo(s):**<br>S4C Tywysogion: Yr Arglwydd Rhys (Hwb) 36:00 – 37:25<br><br>Richard I Summarised - History Box<br><br>Richard I and his problems<br><br>The Lord Rhys (Chwaraewch o 3.04 i'r diwedd) - Sarah Woodbury<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 6 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint yr oedd Rhisiart I yn ystyried Arglwydd Rhys mewn ffordd wahanol i Harri II. | | |
| • digwyddiadau'r rhyfel a'u heffaith ar gymdogion Normanaidd, gan gynnwys:<br>  • yr ymosodiadau ar Hwlffordd, Penfro a Gŵyr yn 1189<br>  • cipio cestyll Sanclêr, Talacharn, Llansteffan a Nanhyfer | Y rhesymau pam wnaeth Arglwydd Rhys ailddechrau rhyfela â'i gymdogion Normanaidd.<br><br>Ei lwyddiannau yn cynyddu ei reolaeth dros gestyll De-orllewin Cymru. | **Gweithgareddau:**<br>Defnyddiwch fap gwag o Gymru i blotio'r cestyll gafodd eu cipio yn yr ymgyrch hon, ac ychwanegwch fanylion am yr hyn wnaeth ddigwydd ym mhob un.<br><br>Cymharwch hyn ag ymgyrchoedd blaenorol mae'r testun hwn wedi ymdrin â nhw a nodwch y nodweddion tebyg a gwahanol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam gwnaeth Arglwydd Rhys ailddechrau brwydro yn erbyn ei gymdogion Normanaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch y gymhariaeth ag ymgyrchoedd blaenorol i drafod pa mor llwyddiannus oedd Arglwydd Rhys yn ei ymgyrch o gymharu â'r hyn yr oedd wedi'i gyflawni o'r blaen. | **Gwefan(nau):**<br>St Clears Castle<br><br>Painscastle Castle<br><br>Pobl – Castell Nanhyfer<br>Castell Nanhyfer<br>**Fideo(s):**<br>Aberystwyth Castle - Sarah Woodbury<br><br>Castell Nanhyfer<br><br>**Map(iau):**<br>Deheubarth<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 6 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint llwyddiant Arglwydd Rhys yn y rhyfeloedd â'i gymdogion Normanaidd. | | |
| • ymgyrch olaf lwyddiannus Rhys, gan gynnwys:<br>  • cipio'r cestyll yng Nghaerfyrddin, Colwyn a Maesyfed<br>  • trechu byddin Roger de Mortimer a Hugh de Say ym Maesyfed. | Cynnydd ymgyrch olaf Arglwydd Rhys.<br><br>Pwysigrwydd cynyddu pŵer Deheubarth dros fwy o gestyll yn Ne Cymru.<br><br>Arwyddocâd ei fuddugoliaeth dros ei elynion Normanaidd yn Ne Cymru. | **Gweithgareddau:**<br>Parhewch i blotio lleoliadau'r buddugoliaethau hyn ar y map o'r wers flaenorol.<br><br>Ymchwiliwch i'r arglwyddi Normanaidd yr oedd Arglwydd Rhys yn ymladd yn eu herbyn i ganfod pa mor bwerus a phwysig oeddent.<br><br>Trafodwch beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am ba mor bwerus oedd yr Arglwydd Rhys erbyn iddo orffen ymgyrchu.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall bod yr Arglwydd Rhys wedi parhau i fod yn llwyddiannus fel arweinydd milwrol hyd at ei ymgyrch olaf yn 1196.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadleuwch pa mor bwerus oedd yr Arglwydd Rhys erbyn adeg ei ymgyrch olaf yn 1196 o gymharu ag adegau eraill yn ei fywyd, fel 1155 ac 1172. | **Gwefan(nau):**<br>The Last Campaign of Prince Rhys ap Gruffudd of Deheubarth<br><br>**Map(iau):**<br>Deheubarth<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Yr Arglwydd Rhys,* gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce<br><br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Pennod 6 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor bwerus oedd Arglwydd Rhys erbyn 1196. | | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.1.5 Marwolaeth a gwaddol Rhys ap Gruffudd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • yr anghydfod rhwng Rhys a'i feibion a'i etifeddion, gan gynnwys:<br>• perthynas anodd gyda'i fab, Maelgwn<br>• carcharu ei feibion Rhys Gryg a Maredudd. | Coeden deulu'r Arglwydd Rhys ap Gruffudd.<br><br>Effaith yr elyniaeth fwy traddodiadol am reolaeth rhwng meibion Arglwydd Rhys, a oedd yn wahanol iawn i'w brofiad ei hun â'i frodyr.<br><br>Y berthynas wael rhwng Arglwydd Rhys a'i feibion, gan gynnwys brad a charcharu. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch goeden deulu ar gyfer Rhys ap Gruffudd, o'i rieni i lawr i'w blant.<br><br>Ymchwiliwch i'r hyn wnaeth ddigwydd i'w blant ac ychwanegwch hyn at y goeden deulu.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y problemau gafodd Arglwydd Rhys â'i feibion.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ailedrychwch ar waith o 1.1.1 ar Arglwydd Rhys a'i frodyr. Ymchwiliwch i ba mor wahanol oedd y berthynas rhyngddo ef a'i feibion o gymharu â'i berthynas â'i frodyr ei hun a'i dad ac ysgrifennwch adroddiad ar hyn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch faint yr oedd y problemau rhwng yr Arglwydd Rhys a'i feibion yn arferol ymysg teuluoedd brenhinol Cymru. | **Fideo(s)**<br>S4C Tywysogion: Yr Arglwydd Rhys (Hwb)<br>39:46 – 44:00<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Children of Lord Rhys - Ancient Wales Studies<br><br>About: Maelgwn ap Rhys<br><br>Maredudd Gethin ap Lord Rhys<br><br>GRUFFYDD ap RHYS (bu farw 1201), tywysog Deheubarth \| Y Bywgraffiadur Cymreig<br>RHYS GRYG (bu farw 1234)<br><br>MAELGWN ap RHYS (c. 1170 - 1230), arglwydd Ceredigion \| Y Bywgraffiadur Cymreig<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Penodau 6 a 7 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth Rhys yn 1197, gan gynnwys:<br>• achos ei farwolaeth a'i effaith uniongyrchol<br>• statws Rhys pan fu farw: ysgymuno, ei fflangellu a'i gladdu yn Nhyddewi. | Y rhesymau dros farwolaeth Arglwydd Rhys.<br><br>Y dyhead i Ddeheubarth gyfan gael ei rheoli gan un tywysog yn hytrach na chael ei rhannu fel y gwnaed gydag Arglwydd Rhys a'i frodyr.<br><br>Yr anghydfod ag Esgob Tyddewi a'i effaith ar gladdedigaeth Arglwydd Rhys. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i bwysigrwydd Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn hanes Cymru ac ysgrifennwch baragraff ar hyn.<br><br>Esboniwch pam y bu'n rhaid cosbi corff yr Arglwydd Rhys cyn y gellid caniatáu iddo gael ei gladdu yno.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth ddigwyddodd pan fu farw Arglwydd Rhys.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ysgrifennwch deyrnged i Arglwydd Rhys sy'n ymgorffori'r pethau da a'r pethau drwg amdano fel rheolwr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint y gallai'r digwyddiadau o amgylch marwolaeth Arglwydd Rhys fod wedi effeithio ar y ffordd yr oedd pobl yn ei gofio. | **Delwedd(au):**<br>Arddelw yr Arglwydd Rhys ap Gruffydd<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Rhys ap Gruffydd<br><br>**Fideo(s):**<br>S4C Tywysogion: Yr Arglwydd Rhys (Hwb)<br>44:00 i'r diwedd<br><br>St. David's Cathedral - Sarah Woodbury<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Penodau 6 a 7 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • gwaddol Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>◦ yr anghydfod ynghylch yr olyniaeth – Maelgwn yn herio Gruffudd ap Rhys<br>◦ Deheubarth yn dod yn wladwriaeth ddibynnol ar Wynedd. | Hawliau croes i fod yn rheolwr ac effaith yr anghydfodau hyn ar Ddeheubarth.<br><br>Arwyddocâd pŵer a dylanwad cynyddol Gwynedd o dan Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr).<br><br>Diwedd Deheubarth fel teyrnas annibynnol. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwiliwch i'r hyn ddigwyddodd i deyrnas Deheubarth ar ôl marwolaeth Arglwydd Rhys a disgrifiwch hyn.<br><br>Ymchwiliwch i gyflawniadau Llywelyn ab Iorwerth, gan gynnwys sut gwnaeth Gwynedd gymryd rheolaeth o Deheubarth ac ysgrifennwch am hyn<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall bod pŵer a dylanwad Deheubarth wedi dirywio'n gyflym ar ôl marwolaeth Arglwydd Rhys.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadleuwch ai'r rhaniadau ymysg meibion yr Arglwydd Rhys neu bŵer cynyddol Gwynedd dan reolaeth Llywelyn Fawr wnaeth arwain at gwymp Deheubarth.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am faint yr oedd pŵer cynyddol Gwynedd yn gyfrifol am ddirywiad Deheubarth. | **Gwefan(nau):**<br>The Early Welsh Kingdoms: Deheubarth<br><br>**Fideo(s):**<br>Llywelyn the Great - Sarah Woodbury<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Lord Rhys, Prince of Deheubarth* gan Roger Turvey, Penodau 6 a 7 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Gallai dysgwyr ymweld â llawer o'r cestyll sydd dan sylw yn y fanyleb hon, naill ai'n rhithwir neu'n bersonol. Mae'r rhain yn cynnwys Dinefwr, Cydweli ac Aberteifi. Mae cysylltau YouTube i deithiau o amgylch cestyll yn y cynllun dysgu a all gefnogi'r profiad dysgu hwn. |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Bydd dysgwyr yn gallu deall pam yr oedd Cristnogaeth yn bwysig i Arglwydd Rhys, ond hefyd bod barn wahanol am y berthynas rhwng arweinwyr gwleidyddol a chrefyddol, ynghyd ag anghydfodau dros bwy wnaeth benderfyniadau crefyddol pwysig ar gyfer teyrnasoedd Cymru. |
| gweithio ar y cyd | Mae Uned 1.1. yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr weithio mewn grwpiau. Er enghraifft:<br>• crynhoi'r wybodaeth am deulu brenhinol Deheubarth i gyflwyno esboniad i'r dosbarth o sut sefydlodd Rhys ap Gruffudd ei hun fel rheolwr Deheubarth<br>• trafod pa mor bwerus oedd Arglwydd Rhys erbyn yr 1170au, gydag un ochr yn dadlau ei fod yn bwerus a'r ochr arall yn dadlau nad oedd yn bwerus.<br><br>Mae cyfleoedd ar gael i ddadlau hefyd, fel:<br>• amddiffyn y syniad ei bod yn anodd i Rhys ap Gruffudd ddod yn rheolwr Deheubarth, neu ddadlau ei bod yn syml ac yn rhwydd<br>• pa mor bwerus oedd yr Arglwydd Rhys erbyn adeg ei ymgyrch olaf yn 1196 o gymharu ag adegau allweddol eraill yn ei fywyd, fel 1155 ac 1172<br>• ai'r rhaniadau ymysg meibion yr Arglwydd Rhys neu bŵer cynyddol Gwynedd dan reolaeth Llywelyn Fawr wnaeth arwain at gwymp Deheubarth.<br><br>Mae sawl cyfle i drafod hefyd, gan gynnwys:<br>• pa mor arwyddocaol oedd ymostyngiad i awdurdod Lloegr yn y cyngor brenhinol o gymharu â llwyddiannau fel Crogen<br>• pa mor bwysig oedd y ffactorau wnaeth dynnu sylw Harri, fel y ddadl â'r Eglwys a'r problemau â'i ymerodraeth yn Ffrainc, i sicrhau llwyddiant i dywysogion Cymru<br>• pam yr oedd angen cestyll ar reolwyr Cymru yn y cyfnod hwn a beth oedd yn eu gwneud yn wahanol i gestyll a adeiladwyd yng Nghymru mewn canrifoedd diweddarach |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • pa mor llwyddiannus oedd yr Arglwydd Rhys yn ei ymgyrchoedd diweddarach o gymharu â'r hyn a gyflawnodd cyn hynny<br>• pa mor bwerus oedd yr Arglwydd Rhys erbyn iddo orffen ymgyrchu. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae Uned 1 yn rhoi chwe thestun hanesyddol gwahanol i ganolfannau sy'n ymwneud â hanes amrywiaeth o ardaloedd yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio cyd-destunau lleol neu genedlaethol.<br><br>Mae Opsiwn 1.1 Yr Oesoedd Canol: Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes yr Oesoedd Canol yn Ne Cymru. Mae sawl castell yng ngorllewin a de-orllewin Cymru fel Cydweli, Dinefwr ac Aberteifi yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o adfer teyrnas Deheubarth ar ôl i'r Normaniaid ei chipio. Yn ogystal â hyn mae brwydrau pwysig fel Crug Mawr a Chastell Ewlo yn y gwrthryfeloedd yn erbyn y Normaniaid. Caiff digwyddiadau yn Lloegr, gan gynnwys yr Anarchiaeth, materion dadleuol Becket, a'r Gwrthryfel Mawr eu trafod hefyd ynghyd â'r Drydedd Groesgad ryngwladol. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn archwilio'r perthnasoedd anodd rhwng arglwyddi Normanaidd y mers a rheolwyr brodorol Cymru a'r effaith a gafodd hyn ar bobl Cymru. Roedd gwrthdaro hefyd rhwng rheolwyr Cymru gan olygu bod rhai ardaloedd fel Ceredigion wedi newid dwylo yn aml yn y cyfnod hwn.<br><br>Bydd dysgwyr hefyd yn gallu deall sut dysgodd Cymry brodorol a Normaniaid a oedd wedi ymgartrefu yn y Mers a'r ardaloedd eraill ar y ffin i gyd-fyw yn heddychlon y rhan fwyaf o'r amser. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Cafodd ardaloedd mawr o Gymru eu trefedigaethu gan y Normaniaid o ganlyniad i'w concwest. Gwelwyd hyn yn fwyaf amlwg yn yr ardaloedd a reolwyd gan arglwyddi'r mers a gafodd reolaeth uniongyrchol o'r tiriogaethau hyn gan frenhinoedd Normanaidd Lloegr.<br><br>Mae Concwest y Normaniaid yn enghraifft o imperialaeth o'r cyfnod hwn mewn hanes, ac mae sefydlu'r Mers yn enghraifft o drefedigaethedd. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Roedd llawer o gyfleoedd swyddi i bobl Cymru yn yr eglwys Gristnogol yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, fel mynachod neu leianod. Mae'r swyddi hyn wedi diflannu i raddau helaeth erbyn hyn ac nid ydynt yn apelio fel arfer i bobl sy'n byw yng Nghymru fodern. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes:</td></tr>
<tr><td>Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td>Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad.<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Bydd cyfleoedd ar gael iddynt hefyd i adfyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes: | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifiadol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd - Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.<br>**Enghraifft**<br>• Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.<br>**Enghraifft**<br>• Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun a'i gyflwyno er mwyn cyflwyno maes astudio. |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol.<br>**Enghraifft**<br>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau Cyfannol | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o destunau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn at senarios bywyd go iawn.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.<br><br>**Enghraifft**<br><br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna i gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Geirfa ar gyfer Opsiwn 1.1 Yr Oesoedd Canol: Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| ap | Mab (ac yna enw'r tad) |
| Archesgob Caergaint | Arweinydd yr Eglwys ym Mhrydain. |
| Arglwyddi'r Mers | Uchelwyr a ddewiswyd gan frenhinoedd Normanaidd Lloegr i reoli ardaloedd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. |
| Croesgad | Brwydr a ymladdwyd rhwng rheolwyr Cristnogol a Mwslimaidd i gael rheolaeth dros diroedd sanctaidd y Dwyrain Canol |
| Eglwys Rhufain | Arweiniwyd yr Eglwys Gristnogol yng ngorllewin Ewrop gan y Pab yn Rhufain. |
| Eisteddfod | Gŵyl Gymraeg sy'n cynnwys cystadlaethau cerddoriaeth a barddoniaeth |
| Esgyniad | Pan fydd rhywun yn cael ei wneud yn frenin neu'n frenhines ar wlad |
| Ferch | Merch (ac yna enw'r tad) |
| Mwnt a Beili | Math o gastell wedi'i wneud o dwmpath o bridd (y mwnt) ac ardal oddi tano (y beili) sydd wedi'i amddiffyn gan ffens bren |
| Prif Ustus | Swyddog a oedd yn rheoli pan fyddai brenin Normanaidd Lloegr i ffwrdd yn ymladd. |
| Yr Anarchiaeth | Y rhyfel cartref (1131-1153) rhwng Brenin Stephen a'r Ymerodres Matilda i gael rheolaeth dros orsedd Lloegr ac Ymerodraeth Angevin yn Ffrainc. |
| Y Goncwest Normanaidd | Y Normaniaid yn goresgyn Prydain o ogledd Ffrainc a arweiniodd atynt yn rheoli ardaloedd mawr o Ynysoedd Prydain |
| Y Mers | Yr ardal ar hyd ffiniau Cymru a Lloegr sy'n cael ei rheoli gan Arglwyddi'r Mers. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.